cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
# Tystiolaeth Trydydd Parti

Mae angen i chi brofi y gallwch weithredu yn gyfreithlon fel trydydd parti ar ran yr ymgeisydd am LCA. Defnyddiwch yr wybodaeth isod i ddarganfod beth sydd angen i chi anfon.

Byddwn yn derbyn **llungopïau** o'ch tystiolaeth.

| Os ydych yn: | Bydd angen i chi anfon: |
|---|---|
| **gweithredu ar ran myfyriwr nad yw'n gallu:**<br>• llenwi/llofnodi'r ffurflen gais ei hun<br>**a/neu**<br>• feddu ar gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn ei enw | • dogfennaeth gan gorff cyhoeddus (er enghraifft, eich Awdurdod Lleol) neu Bŵer Atwrnai yn cadarnhau eich bod wedi'ch awdurdodi i weithredu a/neu dderbyn taliadau ar ran y myfyriwr.<br>**Mae enghreifftiau yn cynnwys:**<br>• datganiad o anghenion addysgol arbennig y myfyriwr; **neu**<br>• lythyr yn dangos eich bod yn cael Lwfans Byw i'r Anabl (DLA); **neu**<br>• lythyr yn dangos Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) ar ran y myfyriwr. |